Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Feithrinfa Ddydd Gofal Plant Playdays
# Adeiladau'r Goron
# Lôn Brodog
# Abergwaun
# Sir Benfro
# SA65 9NT

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/02/2017**

## Cyd-destun

Mae Meithrinfa Ddydd Playdays yn Abergwaun, yn awdurdod lleol Sir Benfro. Mae'r lleoliad yn agor am bum niwrnod yr wythnos ac yn cyflogi deg o ymarferwyr.

Mae cofrestriad y lleoliad yn caniatáu iddo gymryd hyd at 45 o blant ar unrhyw adeg benodol. Mae'r lleoliad yn derbyn plant rhwng chwe wythnos oed a phedair oed. Adeg yr arolygiad, roedd yr awdurdod lleol yn ariannu chwech o blant.

Mae bron pob un o'r plant yn siarad Saesneg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, mae'r lleoliad yn nodi mai ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Y perchennog yw'r rheolwr ac mae'r lleoliad yn gwmni cyfyngedig. Dechreuodd ar ei swydd, ynghyd â'r dirprwy reolwr, ym Medi 2012. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf yn Nhachwedd 2015. Hwn yw arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd cyson ac yn dangos medrau llythrennedd a rhifedd effeithiol
- Mae bron pob un o'r plant yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda
- Caiff profiadau dysgu eu cynllunio'n briodol
- Mae'r addysgu yn ennyn diddordeb plant yn dda ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddeilliannau plant
- Mae arferion asesu ymarferwyr yn symud plant ymlaen i'r camau nesaf yn eu dysgu yn effeithlon
- Mae ymarferwyr yn cydweithredu'n effeithiol fel tîm ac maent yn adnabod y plant yn dda
- Mae ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu meithringar
- Mae ardaloedd dysgu ag adnoddau da yn cefnogi dysgu'r plant yn llwyddiannus

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r perchennog yn darparu cyfeiriad clir i wella gwaith y lleoliad
- Mae'r arferion hunanarfarnu newydd yn briodol
- Mae ymarferwyr yn awyddus i ddatblygu'n broffesiynol ac mae'r hyfforddiant yn bwrpasol
- Mae'r defnydd o asiantaethau allanol yn cefnogi plant ac ymarferwyr yn dda
- Mae perthnasoedd cadarn gydag ysgolion lleol yn cefnogi cyfnodau pontio plant i'r camau nesaf yn eu haddysg yn fuddiol
- Mae defnydd strwythuredig, wedi'i reoli'n dda, o gyllid yn sicrhau gwelliannau effeithiol mewn darpariaeth
- Mae'r perchennog a'r dirprwy reolwr yn monitro lefel gyffredinol darpariaeth y lleoliad yn llwyddiannus ac yn herio ymarferwyr yn briodol

## Argymhellion

A1 Gwella cyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A2 Sefydlu systemau cynllunio effeithiol a chyson

A3 Mynd i'r afael â'r broblem a allai gael effaith anffafriol ar les y plant

A4 Sicrhau bod targedau yn y cynllun gwella yn deillio'n uniongyrchol o brosesau hunanarfarnu'r lleoliad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd cyson ac yn dangos medrau llythrennedd a rhifedd effeithiol. Mae hyn yn amlwg pan fyddant yn cwblhau tasgau bob dydd a thasgau mwy cymhleth yn llwyddiannus.

Mae llawer o blant yn mynegi eu teimladau a'u hemosiynau'n dda yn ystod chwarae rôl ag anifeiliaid tegan o dan ardal 'top mawr' y syrcas. Maent yn cynnal trafodaethau synhwyrol gydag oedolion a gyda'i gilydd am lyfrau a'r gwahanol fathau o anifeiliaid sy'n bodoli o gwmpas y byd, fel eliffantod a chrocodeilod. Maent hefyd yn cydweithredu'n dda mewn chwarae gweithredol wrth daflu coetiau a sachau ffa ar dargedau wedi'u rhifo sydd wedi'u gosod ar wahanol bellterau yn ystod tasgau syrcas.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad yn glir ac yn gwneud yn siŵr bod oedolion a phlant eraill yn eu deall wrth ymateb iddynt yn ystod gweithgareddau. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau gan bobl eraill ac yn eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae hyn yn arbennig o amlwg pan fyddant yn nodi rhifau wrth iddynt chwarae gemau rhif a phan fyddant yn rhoi pegiau gwahanol liwiau mewn bwrdd i greu gwahanol batrymau.

Mae mwyafrif y plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau eu cynnwys wrth drafod cymeriadau a digwyddiadau yn hyderus gydag oedolion a chyfoedion. Maent yn trin a thrafod y llyfrau yn yr ardal ddarllen dan do fel darllenwyr naturiol a hamddenol. Mae llawer ohonynt yn eistedd yn dawel ac yn dilyn storïau sy'n cael eu darllen iddynt yn dda. Maent yn ymateb yn synhwyrol i gynnwys y stori. Er enghraifft, maent yn trafod eu teimladau'n glir, am sut mae rhai anifeiliaid, fel crocodeilod, yn gwneud iddynt deimlo.

Mae lleiafrif o blant yn defnyddio iaith soffistigedig yn bwrpasol mewn chwarae digymell a strwythuredig, er enghraifft wrth droelli a throi melinau gwynt a dringo ysgolion yn eu tro i fynd ar y llithren. Maent yn nodi safleoedd fel 'cyntaf' ac 'olaf' wrth drefnu ei gilydd yn ôl safleoedd ar ôl rasys, ac yn dweud bod rhai plant wedi cyrraedd y llinell derfyn 'cyn' ac 'ar ôl' plant eraill.

Mae llawer o blant yn creu marciau yn effeithiol. Maent yn mwynhau profiadau ysgrifennu ac yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel paent, sialc, pensiliau ac ysgrifbinnau. Mae rhai plant yn dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau yn annibynnol ac mewn ffurf y gellir ei hadnabod yn eithaf da wrth gopïo eu henwau a geiriau i'w hychwanegu at arddangosiad ar yr hydref. Mae mwyafrif y plant yn esbonio diben ysgrifennu yn y cyd-destun cywir wrth sgriblo a darlunio llinellau ar fyrddau sialc. Mae lleiafrif o blant yn adnabod eu henwau eu hunain ac enwau plant eraill yn gywir yn ystod tasgau cofrestru.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol ac mewn cyd-destunau perthnasol. Mae llawer o blant yn cyfrif, yn adnabod ac yn enwi rhifau i

ddeg yn hyderus ac mae rhai ohonynt yn cyfrif i 20 a thu hwnt. Mae rhai plant yn adnabod rhifau i fyny i 100 a gallant eu marcio'n gywir fel 'wedi dod o hyd iddo', gydag ysgrifbinnau amlygu, yn ystod gemau rhif.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau mathemateg yn effeithiol. Maent yn rhifo slabiau palmant yn gywir ar y llwybr yn yr awyr agored gyda chymorth gan oedolyn ac yn cyfrif rhifau o un i un deg pump yn hyderus, wrth gyfrif faint o blant sy'n eistedd mewn cylch. Gyda chymorth, ychydig iawn o blant sy'n deall yn glir sut i roi safleoedd yn eu trefn o'r cyntaf i'r trydydd. Mae llawer o blant hefyd yn deall gwahaniaethau mewn uchder wrth iddynt drafod peryglon syrthio oddi ar y ffrâm ddringo. Maent hefyd yn trefnu gwahanol fathau o wrthrychau mewn grwpiau yn ôl lliw, maint a siâp yn gywir. Maent yn cymharu siapiau dau a thri dimensiwn yn dda wrth greu wynebau clown ac wrth adeiladu tyrau â blociau yn yr ardal adeiladu.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu defnydd o'r Gymraeg yn briodol, o ystyried eu cefndir ieithyddol. Mae llawer o blant yn deall beth i'w wneud pan gânt gyfarwyddyd yn Gymraeg, ac mae rhai ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg o bryd i'w gilydd heb anogaeth gan oedolyn. Mae'r rhan fwyaf o blant yn canu hwiangerddi a chaneuon yn Gymraeg yn frwdfrydig.

Mae bron pob un o'r plant yn gwrando ar gerddoriaeth gyda mwynhad ac yn ymateb yn frwdfrydig i hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd. Maent yn chwarae harmonicâu yn annibynnol ac yn symud yn rhythmig i wahanol fathau o gerddoriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau meddwl da, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau y maent yn eu cyflawni. Er enghraifft, maent yn gweithio'n ddiwyd gyda phlant eraill wrth iddynt archwilio gwahaniaethau mewn gweadau wrth gerdded yn droednoeth drostynt.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau defnyddio technoleg yn effeithiol wrth ddefnyddio cyfrifiaduron llechen a thrwy dasgau sy'n cynnwys teganau electronig, camerâu a chwaraewyr cryno ddisgiau. Fodd bynnag, mae eu defnydd o apiau addysgol i ddatblygu eu medrau TGCh a'u medrau echddygol manwl yn gyfyngedig.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda. Maent yn ymateb trwy ddangos parch at oedolion ac at ei gilydd. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n ofalus ar oedolion, er enghraifft pan fyddant yn arbrofi â melinau gwynt yn yr ardal awyr agored. Ar ôl defnyddio'r toiled, chwarae anniben a gweithgareddau yn yr awyr agored, mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr, gydag anogaeth gan oedolyn.

Mae bron pob un o'r plant yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu ac mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos lefelau da o ymgysylltiad yn ystod tasgau. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau yn y meysydd dysgu ac mae llawer ohonynt yn rhannu ac yn gweithio'n synhwyrol gyda phlant eraill. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos

agweddau cadarnhaol at brofiadau newydd, er enghraifft wrth deimlo’r tir oer, caled ar ôl rhew.

Mae bron pob un o’r plant yn uniaethu’n dda ag oedolion ac ymwelwyr pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad a phan fyddant yn gadael. Mae llawer o blant yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Mae hyn yn arbennig o amlwg pan fydd llawer ohonynt yn esbonio’n synhwyrol wrth ei gilydd, heb oedolyn, beth yw diben creu marciau a sut i roi safleoedd yn eu trefn o’r cyntaf i’r trydydd ar ôl rasys.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn dechrau deall bod ganddynt hawliau fel unigolion. Maent yn sylweddoli bod ganddynt ddewis i fynegi barn a ffafriaethau personol, er enghraifft wrth benderfynu symud o un ardal ddysgu i un arall yn annibynnol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae’r dirprwy reolwr a’r ymarferwyr yn cynllunio gyda’i gilydd yn dda i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy’n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae’r cynllunio yn targedu anghenion a diddordebau plant yn dda ac yn darparu cyfleoedd iddynt ddysgu’n annibynnol. Mae’r prosesau cynllunio newydd yn darparu gweithgareddau hyblyg a diddorol, sy’n cymell plant i ddysgu trwy dasgau ymarferol. Mae ymarferwyr yn galluogi plant i gyfrannu eu syniadau eu hunain at y cynllunio ac maent yn sicrhau cydbwysedd yn effeithiol rhwng gweithgareddau wedi’u harwain gan oedolyn a gweithgareddau wedi’u harwain gan blant. Mae profiadau dysgu yn ddifyr ac mae ymarferwyr yn sicrhau dilyniant effeithiol yn nysgu’r plant. Fodd bynnag, mae’r prosesau cynllunio yn newydd ac nid ydynt wedi cael amser i ymgorffori yn arferion dyddiol y lleoliad eto. Mae’r lleoliad yn gwella a mireinio’r prosesau o hyd.

Ceir cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl plant. Mae tasgau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob ardal ddysgu erbyn hyn, ac maent yn herio’r plant i berfformio ar eu gorau yn gyson. Mae’r tasgau’n adeiladu’n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol plant mewn ffordd fywiog a difyr. Mae enghreifftiau’n cynnwys cyfleoedd cyfoethog ar gyfer chwarae rôl o dan y ‘top mawr’ yn y syrcas a thrafod sut i gwblhau wynebau clown o wahanol siapiau ar blatiau papur. I adeiladu ar y brwdfrydedd hwn, mae plant yn marcio slabiau palmant â rhifau mewn sialc yn yr ardal awyr agored.

Mae’r fformat cynllunio newydd yn sicrhau heriau rheolaidd i gefnogi datblygiad medrau datrys problemau plant, er enghraifft, trefnu eu hunain mewn safleoedd addas i daflu coetiau dros bolion wedi eu rhifo yn llwyddiannus, creu safleoedd corff effeithiol i wneud i felinau gwynt droi yn y gwynt, a cherdded â chydbwysedd ar hyd trawstiau balans gyda phlant eraill heb gwympo.

Mae ymarferwyr yn cynllunio i ddatblygu medrau corfforol a chreadigol plant yn llwyddiannus. Maent yn galluogi plant i archwilio ac arbrofi ar fframiau dringo ac ymarfer medrau syrcas ag offer amrywiol. Mae hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth plant o berygl a sut i ddefnyddio offer yn synhwyrol i ddifyrru plant a phobl eraill.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn foddhaol. Mae ymarferwyr yn dangos geiriau unigol ac ymadroddion yn gywir. Maent yn annog plant i ddefnyddio'r Gymraeg trwy ganu caneuon a defnyddio ymadroddion syml sy'n cynnwys rhifau a lliwiau. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau Cymreig yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi, Dydd Santes Dwynwen a phobi cacennau traddodiadol a bara.

Ceir darpariaeth ddigonol ar gyfer datblygu medrau TGCh plant. Mae'n cynnig cyfleoedd addas i ddefnyddio llechen cyfrifiadur electronig, camerâu, teganau electronig, microffonau a chwaraeydd cryno ddisgiau. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn herio plant i ddatblygu eu medrau TGCh cynnar yn systematig trwy gynnig cyfleoedd TGCh sy'n cefnogi medrau llythrennedd neu rifedd yn ddigon aml.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu plant. Mae ymweliadau â'r llyfrgell leol, siopau'r dref, cerdded i swyddfa'r post i bostio llythyrau, teithiau i fwydo anifeiliaid a thaith ar y bysiau lleol yn ychwanegu diddordeb at y cwricwlwm. Mae ymwelwyr, sy'n cynnwys aelodau o'r gwasanaethau brys, swyddog diogelwch ffordd, rhieni sydd ag anifeiliaid anwes, actorion a gweithwyr archfarchnad yn addysgu'r plant yn briodol am rolau pobl yn eu cymuned.

Mae ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu diddorol sy'n annog plant i drin pobl o bob cefndir diwylliannol â pharch a goddefgarwch. Mae hyn yn cynnwys dathlu'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd a Diwali bob blwyddyn. Mae'r profiadau cynlluniedig hyn yn datblygu dealltwriaeth well i'r plant o'r byd.

**Addysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes ynghylch datblygiad plentyn, ac mae llawer ohonynt wedi ennill cymwysterau ychwanegol dros y blynyddoedd diwethaf. Maent yn wybodus am ofynion y Cyfnod Sylfaen a'r deilliannau a ddisgwylir ar gyfer plant mewn cyfnodau datblygu penodol.

Mae oedolion yn cyfarch plant yn gadarnhaol wrth iddynt gyrraedd ac maent yn parhau i ddangos y brwdfrydedd hwn trwy gydol y sesiynau. Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol a diogel. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad plant yn yr holl weithgareddau yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n dda ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob un o'r plant. Maent yn eu herio yn effeithiol yn ystod tasgau, gan arwain y plant yn fedrus tuag at amcan tasg.

Mae ymarferwyr yn annog plant i gydweithio â phlant eraill ar draws tasgau llythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn cynnwys creu marciau ar fyrddau sialc, ymchwilio i newidiadau yn y tywydd a didoli doliau arch arwyr. Mae ymarferwyr yn defnyddio holi yn bwrpasol i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu plant. Mae hyn yn amlwg pan fydd plant yn trafod nodweddion y gaeaf, gan nodi bod y tir yn caledu ar ôl rhew a bod dŵr yn newid i rew pan fydd yn rhewi.

Mae system gweithwyr allweddol y lleoliad yn llwyddiannus. Mae'n galluogi plant i symud yn rhydd a hyderus rhwng gwahanol ardaloedd dysgu. Mae hyn yn effeithio ar ddysgu'r plant yn dda. Mae ymarferwyr yn cwblhau asesiadau dyddiol yn gyson ar

daflenni cofnodi, sy'n cyd-fynd yn effeithlon â phroses gynllunio newydd y lleoliad. Maent yn annog plant i asesu eu dysgu eu hunain ac maent yn trafod yn synhwyrol gyda phlant beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Mae hyn yn llywio cynllunio yn y dyfodol i dargedu anghenion plant unigol yn effeithiol.

Mae'r systemau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn gywir a defnyddiol. Maent yn darparu man cychwyn cadarn ar gyfer pob plentyn. Mae ymarferwyr yn asesu deilliannau plant unigol yn rheolaidd wrth iddynt aeddfedu yn y lleoliad, gan gefnogi eu cyfnod pontio i'r ysgolion cyfagos yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am gyflawniadau eu plant. Ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad, mae ymarferwyr yn cyflwyno llyfr addysgiadol ar gynnydd y plant i rieni. Mae hyn wedi'i seilio ar eu sylwadau dyddiol am ddeilliannau plant unigol dros gyfnod.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Ceir trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles plant. Mae'r trefniadau hyn yn cefnogi dysgu'r plant yn dda ac yn cyfrannu'n bwrpasol at eu datblygiad cyffredinol. Mae gan y lleoliad drefniadau effeithlon i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn dechrau deall bod ffrwythau a llysiau yn rhan o ddiet synhwyrol.

Ceir cyfleoedd gwerthfawr i blant fyfyrio a dweud diolch bob dydd yn ystod cyfnodau pan fyddant yn eistedd gyda'i gilydd. Mae hyn yn creu tawelwch wrth i blant wrando ar oedolion, cymryd eu tro i olchi eu dwylo a dweud diolch am eu bwyd yn ystod amser byrbryd. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn gwrtais wrth fwyta byrbrydau a gweini llaeth a dŵr o gwmpas y bwrdd bwyd. Mae helpwyr y diwrnod yn cael cyfle i helpu'n bwrpasol wrth roi gwybod i staff y gegin faint o blant sydd angen byrbrydau.

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio sesiynau grŵp yn dda i ganolbwyntio ar ystyried teimladau ei gilydd. Mae hyn yn cynnwys galluogi unigolion i siarad yn eu tro a rhannu offer, ffrwythau a phopgorn yn synhwyrol. Trwy wneud hynny, maent yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn atgyfnerthu pwysigrwydd y gwerthoedd hyn bob dydd, gan atgoffa plant y dylent ymddwyn yn gyfrifol bob amser, y tu mewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cardfwrdd, plastig a bwyd. Mae creu modelau o sothach hefyd yn rhan weithredol o gynllunio'r lleoliad. Mae plant ac ymarferwyr yn compostio bwyd yn ardal yr ardd. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae ymarferwyr yn cymryd gofal da o blant pan fyddant yn cyrraedd a phan gânt eu casglu. Mae hyn yn cynnwys system drylwyr ar gyfer mewngofnodi ac allgofnodi sy'n cael ei goruchwylio gan ymarferwyr. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae ymarferwyr yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n sicrhau bod plant yn teimlo'n hapus a diogel yn eu cwmni. Mae plant yn aml yn

gofyn i ymarferwyr am gymorth a chefnogaeth, ac mae ymarferwyr yn barod i'w darparu.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn gywir pan fyddant yn ymuno, ac yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd ac yn nodi eu mannau cychwyn yn drylwyr trwy ddilyn canllawiau proffil y Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn nodi a chynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn bwrpasol. Mae ymarferwyr yn gweithio gydag asiantaethau priodol yn ôl yr angen, er mwyn darparu cymorth cyn gynted ag y bo modd.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar sydd ag awyrgylch cynnes a theuluol. Mae ymarferwyr yn annog plant i drin pobl eraill â gofal a dangos parch atynt, beth bynnag fo'u rhywedd, eu hil neu'u cefndir. Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol ac fe gaiff pob un o'r plant yr un cyfle i elwa ar brofiadau dysgu, y tu mewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored fel ei gilydd.

Mae amgylchedd dysgu'r lleoliad yn lân a threfnus. Mae gan bob ardal ddysgu ystod dda o adnoddau i gefnogi dysgu'r plant yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn cynnal yr adeilad yn effeithlon. Fodd bynnag, tynnodd yr arolygydd sylw'r perchennog yn ystod yr arolygiad at fater a allai gael effaith anffafriol ar les disgyblion.

Mae arddangosfeydd deniadol ac addysgiadol yn gwella'r amgylchedd dysgu ac yn dathlu cyflawniadau plant yn dda. Mae maint y rhan fwyaf o'r ardaloedd addysgu yn briodol ar gyfer nifer y plant sydd wedi eu cofrestru ar unrhyw adeg benodol. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r lle sydd ar gael yn dda trwy ddefnyddio gwahanol ardaloedd yn reddfol, fel datblygu ardaloedd grŵp bach yng nghornel yr ystafell, sy'n rhoi cyfleoedd i blant ddarllen ar sachau eistedd.

Mae ymarferwyr yn darparu mannau dysgu hyblyg, sy'n galluogi plant i wneud dewisiadau annibynnol yn eu dysgu eu hunain. Mae'r ardal drefnus yn yr awyr agored yn cynnwys ardaloedd tyfu a phlannu, offer dringo ac ardal agored i reidio beiciau yn ystod chwarae cadarn. Mae ymarferwyr yn defnyddio cyfleusterau yn yr ardal leol yn bwrpasol, fel defnyddio amwynderau'r dref a chludiant lleol yn rheolaidd.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mewn cyfnod cymharol fyr, mae'r perchennog a'r dirprwy reolwr wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad sydd wedi'i seilio ar ddealltwriaeth glir o anghenion y lleoliad. Mae'n deillio o brosesau sicrhau ansawdd a ddefnyddir ar gyfer y ddarpariaeth gofal dydd, sy'n system sefydledig. Mae hyn yn rhoi cyfeiriad clir i waith y lleoliad. Mae'r perchennog yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer y ddarpariaeth a gynigir a safonau plant.

Mae'r arweinwyr yn monitro bod y ddarpariaeth ddyddiol ar gyfer y plant yn ddiddorol a difyr. Maent yn hyrwyddo datblygiadau newydd yn bwrpasol ac yn cymell ymarferwyr i wneud gwelliannau mewn modd cefnogol. Mae hyn wedi arwain at newidiadau pwrpasol wrth gynllunio profiadau dysgu ar gyfer y plant. Mae'r perchennog yn drylwyr a chadarn o ran goruchwylio asesiadau risg a chadw at bolisïau a gweithdrefnau dyddiol.

Mae disgrifiadau swydd yn glir ac mae hyn yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau. Mae trafodaethau a chyfarfodydd staff rheolaidd yn galluogi ymarferwyr i rannu gwybodaeth am ddatblygiad plant unigol yn effeithiol. Mae hyn yn galluogi ymarferwyr i weithio'n dda fel tîm a chyflawni eu dyletswyddau'n llwyddiannus. Mae arweinwyr wedi llwyddo i greu amgylchedd lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac felly'n rhoi o'u gorau.

Mae'r lleoliad yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant yn effeithiol, yn ogystal â datblygu'r ddarpariaeth yn yr awyr agored yn bwrpasol. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh plant yn datblygu o hyd.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r perchennog a'r dirprwy reolwr yn gwybod yn dda beth yw cryfderau'r lleoliad a mwyafrif y meysydd y mae angen eu gwella. Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau cyson yn ddiweddar i fonitro safonau plant a'r ddarpariaeth ddyddiol. Mae'r cydweithio effeithiol a'r wybodaeth a gesglir yn rheolaidd, ynghyd â chyfarfodydd staff, yn cyfrannu at yr arferion hyn yn bwrpasol.

Mae arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth berthnasol a rheolaidd am y lleoliad i sicrhau gwelliannau i'w ddarpariaeth, er enghraifft mireinio'r broses asesu. Mae'r broses hunanarfarnu yn dechrau ystyried safbwyntiau'r ymarferwyr ymroddgar, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Chymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru.

Fodd bynnag, mae hunanarfarnu yn newydd i'r perchennog a'r dirprwy reolwr. Dechreuwyd ar y broses pan ddechreuodd darpariaeth y lleoliad ar gyfer plant tair oed wedi'u hariannu y llynedd. O ganlyniad, nid yw'r arweinwyr wedi cael digon o amser i ymgorffori'r arferion hunanarfarnu yn llawn ym mywyd y lleoliad o ddydd i ddydd. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn awgrymu bod defnydd y lleoliad o arweiniad yr awdurdod lleol ar hunanarfarnu yn faes i'w ddatblygu. Nid yw'r adroddiad yn cynnwys digon o fanylion ynglŷn â sut a pham mae angen gwella rhai meysydd ymhellach.

Mae meysydd presennol i'w datblygu yn cynnwys gwella deilliannau plant mewn Cymraeg, sefydlu system gynllunio drylwyr ac effeithiol a darparu rhagor o gyfleoedd i blant fynegi eu barn yn effeithiol. Mae'r perchennog a'r dirprwy reolwr yn gosod targedau priodol yn erbyn graddfeydd amser addas ac maent yn eu blaenoriaethu yn synhwyrol. Mae'r perchennog yn dyrannu cyllid digonol i fodloni'r targedau. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw'r targedau yn y cynllun gwella yn deillio'n uniongyrchol o hunanarfarniad y lleoliad.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid i wella darpariaeth a gwella safonau a lles plant. Mae effaith partneriaethau lleol ar ddeilliannau plant yn gadarnhaol, mae hyn yn cynnwys cysylltiadau sefydledig y lleoliad ag ysgolion cyfagos. Mae hyn yn cefnogi trefniadau trosglwyddo plant yn dda. Mae'r plant yn elwa ar y trefniadau ar gyfer trosglwyddo asesiadau a gwybodaeth bersonol gan eu bod yn ymgynefino'n gyflym yn eu hysgolion newydd.

Mae'r lleoliad yn defnyddio cysylltiadau â'r gymuned yn llwyddiannus i gefnogi a chyfoethogi dysgu'r plant. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan yng ngweithgareddau'r dref, fel cymryd rhan mewn cystadlaethau yn sioe flynyddol y dref a pherfformio gyda phlant a phobl eraill yng ngharnifal y dref.

Mae ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o grwpiau partneriaeth eraill, sy'n gwneud cyfraniad cadarn at wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cynorthwyo'r lleoliad â chyngor busnes ac ariannol, hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd a hyfforddiant diogelu.

Mae partneriaeth y lleoliad â'r awdurdod lleol a Chymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru yn fuddiol hefyd. Mae perthynas gadarnhaol gydag athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru yn gwella'r ddarpariaeth a safonau plant mewn tasgau bob dydd ac arferion gweinyddol fel ei gilydd. Fodd bynnag, nid yw wedi cael digon o amser i effeithio ar hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad. Mae ymarferwyr yn eu hannog i gynnig eu barn eu hunain ar faterion i wella'r lleoliad, fel cyfleoedd i blant brofi bywyd y dref a gweithgareddau codi arian.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r perchennog a'r dirprwy reolwr yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad trwy ddefnyddio ymarferwyr yn ddeallus a dyrannu adnoddau'n effeithiol. Maent yn cylchdroi ymarferwyr trwy wahanol rolau yn systematig i sicrhau bod medrau ymarferwyr yn datblygu'n bwrpasol i ddarparu ar gyfer anghenion holl blant y lleoliad.

Mae arweinwyr yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn dda. O ganlyniad, mae cymuned ddysgu bwrpasol yn bodoli, lle mae cydweithio effeithiol rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill yn cefnogi pob agwedd ar waith y lleoliad. Mae hyn yn cynnwys arferion effeithiol gydag ysgolion lleol i ddarparu cyfleuster gofal ar gyfer rhieni ar adegau eraill o'r diwrnod.

Mae'r systemau rheoli perfformiad yn drylwyr ac yn sicrhau profiadau dysgu diddorol ac arferion addysgu cadarn. Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau'n greadigol i gefnogi dysgu. Mae ganddo linell amser o welliannau ar waith i ddatblygu'r adeilad. Mae hyn yn cynnwys gwella ffabrig yr adeilad, datblygu ardaloedd chwarae rôl arloesol a darparu adnoddau gwell yn yr awyr agored. Mae'r lleoliad hefyd yn defnyddio

amwynderau'r dref i gefnogi dysgu yn yr awyr agored a chysylltiadau â'r gymuned yn llwyddiannus.

Mae'r perchennog yn defnyddio'r gyllideb yn dda ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn llinellau amser a chyfrifoldebau penodol yn effeithlon. Mae arferion o'r fath yn creu gwelliannau pwrpasol, rheolaidd a chyson. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth gyffredinol ac ar wella deilliannau plant.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian, o ganlyniad i'r cynnydd y mae plant yn ei wneud o'u mannau cychwyn, y ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth bwrpasol.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cafwyd llai na 10 o ymatebion.  Ni fydd unrhyw ddata yn cael ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol – dileer fel y bo'n briodol

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |